O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2020 Rhif 376 (Cy. 83)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A466 (Cylchfan Highbeech, Cas-gwent, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020

Gwnaed	*17 Mawrth 2020*
Yn dod i rym	*23 Mawrth 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffyrdd yr A48 a'r A466, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A466 (Cylchfan Highbeech, Cas-gwent, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 23 Mawrth 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw Cefnffyrdd yr A48 a'r A466 Llundain i Abergwaun fel a ganlyn;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

i. y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 15 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd Bulwark Road hyd at bwynt 40 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Highbeech;

ii. y darn o gerbytffordd tua'r de yr A466 sy'n ymestyn o bwynt 37 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Highbeech hyd at bwynt 75 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y gylchfan honno;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 23 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r cefnffyrdd.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Mawrth 2020

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru